

## Cofion

Anfonwn ein cofion heddiw at Gwyneth Wynne (Henllan) oedd yn disgwyl cael llawdriniaeth yn Ysbyty Gobowen ddiwedd yr wythnos; hefyd Barbara Williams (Henllan) a Morfudd Williams (Henllan) sydd yn Ysbyty Glan Clwyd; a Beryl Jones (Nantglyn) yn Ysbyty Rhuthun. Mae'n dda cael adrodd fod Bronwen Williams (Cefn Berain) wedi cael dod adref o'r ysbyty, ac yn dilyn cryn amser yn yr ysbyty, mae Selwyn Davies (Cefn Meiriadog) wedi symud i gartref Southern House yn Abergele. Hyderwn y bydd yn setlo yno'n fuan, ac y bydd yn profi gofal a grym ein gweddiâu drosto. Parhawn i gofio hefyd am Peter Jones (Groes) yn Hafod y Parc, Abergele. Diolchwn am bob un ohonynt, a chyflwynwn hwy, a phawb arall yn yr ofalaeth sydd heb fod yn mwynhau'r iechyd gorau, i ofal yr Arglwydd, gan ofyn Iddo gysgodi drostynt, a gwylio dros eu hanwyliaid yr un modd.

## I ddod

- **CHRISTIAN VIEWPOINT** – Cyfarfod Nadoligaidd “Spreading Good Cheer” gyda Lorna Sherwood nos Lun, Tachwedd 30ain yn Neuadd Gymunedol Bae Cinmel am 7.30. £3 yn cynnwys bwffe. Croeso i bawb.
- **CWRDD CHWARTER** yn cyfarfod yn Llansannan nos Iau, Rhagfyr 3ydd am 7.00. Yn dilyn y materion busnes, bydd y Llywydd, y Parch. Aneurin Owen, yn ein hannerch ac yn ein arwain at Fwrdd y Cymun.
- **HWYL YR WYL** (oedran 7-11) – Dewch i ddysgu mwy am wir ystyr y Nadolig! Sinema, gemau gwirion, parti 'Dolig, a chreffft yng Ngholeg y Bala, dydd Sadwrn, Rhagfyr 5ed o 10.00-5.30. Cost £10 (£7 i'r ail blentyn). Cysylltwch â Choleg y Bala erbyn Tachwedd 23ain am fwy o fanylion ac i archebu lle (01678 520565 / [colegybala@ebcpcw.org.uk](mailto:colegybala@ebcpcw.org.uk))
- **GWASANAETH CAROLAU BRO ALED** yng Nghapel Coffa Henry Rees, Llansannan nos Sul, Rhagfyr 13eg am 6.00. Paned a mins peis i ddilyn. Ymunwch â ni i ddathlu genedigaeth Crist!
- **CYFARFOD BLYNYDDOL BLAENORIAID A DIACONIAID YR OFALAETH** yn Ffestri Llansannan nos Lun, Rhagfyr 14eg am 7.30.
- **“AWN I FETHLEM”** – Gwasanaeth Carolau Cymdeithas Llansannan yn Eglwys Sant Sannan nos Lun, Rhagfyr 21fed am 7.30.



## Llais Bro Aled

Dydd Sul, 22<sup>ain</sup> Tachwedd 2015

Darlleniad y Dydd

Rhufeiniaid 13:8-10

(BCND tud.177 / BCN: tud.162)

[eglwysibroaled.com](http://eglwysibroaled.com)

[rhaglendorcas.com](http://rhaglendorcas.com)

[llanw.org](http://llanw.org)

[hyfforddiantdawn.com](http://hyfforddiantdawn.com)

Bore da a chroeso i'r gaeaf! Wedi cyfnod mor fwyn, mae hen wynt y gogledd wedi cyrraedd a ninnau'n profi newid byd! Ond croeso cynnes fydd yn ein calonnau gobeithio i air Duw heddiw wrth i ni gydaddoli, a chofiwn deuluoedd y rhai a gollwyd yn Ffrainc o ganlyniad i'r terfysgaeth diweddar.


Parhawn i weddio hefyd dros drafodaethau'r Henaduriaeth yr wythnos yma wrth i ni drafod natur priodas – pwnc pwysig eithriadol gan fod priodas mor ganolog i ddedwyddwch a llawenydd unigolion, teuluoedd a chymdeithas. Mae cael golwg gywir a Beiblaidd ar briodas yn allweddol felly wrth i ni feddwl ymlaen.

Mae priodas yn cael ei gymeradwyo ar gyfer pawb oni bai eu bod yn cael eu galw gan Dduw i fywyd sengl (1 Cor. 7: 7) neu i fywyd di-ryw fel yr eunuchiaid (Mathew 19: 10-12). Mae priodas hefyd yn ordinhad sydd wedi ei osod gan Dduw yng nghanol ei greadigaeth a bywyd y ddynoliaeth i sawl pwrpas, gan gynnwys bod yn gyfrwng cysur a dedwyddwch i'r ddau a unir. (Genesis 2: 18) Mae priodas i fod rhwng dau, a dau sy'n fodlon gadael eu teulu er mwyn bod hefo'i gilydd. (Mathew 19:5) Un pwrpas canolog i briodas ydi adlewyrchu'r undod sanctaidd sydd rhwng Crist a'r Eglwys. (Eff. 5:32)

Cariad ydi sylfaen priodas, ac yn ôl y rhai sydd o blaid priodas grefyddol i gyplau o'r un rhyw, yr un ydi natur y cariad sy'n sylfaen eu perthynas nhw ac felly, dylid caniatáu priodi dan fendith Duw mewn eglwys a chapel. Mae cariad ffyddlon, rhwng dau, beth bynnag fo'u rhywioldeb yn gymeradwy gan Dduw – ac ni ddylai'r eglwys, felly, wrthod eu priodi. Dyna graidd yr egwyddor a gyflwynir a rhaid cydnabod dilysrwydd y dyhead am gyfartaledd gerbron y gyfraith ac yn grefyddol sydd gan gyplau o'r un rhyw.

Ond craidd y broblem sy'n peri gwahaniaeth barn ar y mater yw natur rywiol y berthynas briodasol a'r hyn y byddai'n ofynnol i ni ei dderbyn fel corff Crist wrth gynnal priodas o'r fath. Hynny yw, byddai'n ofynnol i ni dderbyn y datganiad o fendith Duw ar yr undod mewn “corff, calon ac ysbryd” sy'n rhan o'n gwasanaeth priodas.

Dim ond wrth gredu fod ymddygiad rhywiol cyplau hoyw sy'n dymuno priodi yn wahanol yn ei natur a'i hanfod i ymddygiadau un-rhywiol y cyfeirir atynt yn y Beibl – ac a fernir gan Dduw (Rhuf.1: 24-32) – y medrwn dderbyn newid. Heb hynny, ni fedraf weld fod sail i fendithio yr hyn a wrthwynebir. Ond darllenwn ymlaen a sylwi ar rybudd Paul wrth i ni drafod – does yr un ohonom yn medru osgoi realiti barn Duw wrth ddatgan ein barn ein hunain, a fyw i ni anwybyddu pwrpas rasol amynedd Duw tuag atom. (Rhuf. 2: 1-4)

DILYNWCH NI: [@eglwysibroaled](https://twitter.com/eglwysibroaled) 

*Aneurin*

## Darlleniad Wythnos Nesaf

Mathew 8: 23-27 (BCND tud.9 / BCN: tud.8)

## Cyhoeddiadau

### Y Fro

- Sul yma – 22<sup>ain</sup> • **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Gwion, a bydd y Parch. Rhun Murphy yn pregethu.
- Llun – 23<sup>ain</sup> • **Cyfarfod ar gyfer blaenoriaid a swyddogion eglwysi'r Ofalaeth i baratoi at yr Henaduriaeth** yn Festri Llansannan am 7.30.
- Mawrth – 24<sup>ain</sup> • **Cyfarfod Arbennig o'r Henaduriaeth** yn Nhrefnant am 6.00 i drafod y dogfennau a ddaeth i law. Mae'r cyfarfod yn agored i flaenoriaid a swyddogion holl eglwysi'r Henaduriaeth.
- Mercher – 25<sup>ain</sup> • **Recordio "Oedfa'r Bore"** – Byddwn yn recordio ar gyfer Radio Cymru yn Festri Llansannan ar yr amseroedd canlynol: criw CIC o 5.00-6.00; criw y Cyfarfod Gweddi o 6.00-7.00; a chriw Adnabod Addoli o 7.00-8.00.
- Iau – 26<sup>ain</sup> • **Cyfarfod Plant Llanefydd** am 3.15.  
• **Astudiaeth Feiblaidd i'r Fro** yn Llanefydd am 7.30.
- Gwener – 27<sup>ain</sup> • **"Gwisgo Merch ar Draws y Byd"** – Byddwn yn dechrau ar y prosiect o bwytho ffrogiau a siorts (patrwm syml gan ddefnyddio cas gobennydd) ac i weu tedi i'w rhoi ym mhoced y dilledyn ar gyfer plant mewn angen ar draws y byd yn Festri Llansannan am 7:00. Dewch â chas gobennydd a thaclau gwnïo/gweu hefo chi (a pheiriant gwnïo os oes ganddoch un) ac fe fydd Llinos Roberts (Cefn Meiriadog) a Dawn Wilks (Llansannan) yno i roi arweiniad i ni. Croeso i bawb o bob oed!
- Sul nesaf – 29<sup>ain</sup> • **Oedfa'r Fro ar Daith** am 6.00 – y tro hwn yn Llanefydd. Arweinir yr oedfa gan Eryl Davies, a bydd Aneurin yn pregethu.

### Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 22<sup>ain</sup> Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
- Sul nesaf – 29<sup>ain</sup> Bydd Sarah yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 10.30. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

### Saron a Pheniel

- Sul yma – 22<sup>ain</sup> Bydd Mr Wyn Davies yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel ac yn Saron am 10.00.
- Sul nesaf – 29<sup>ain</sup> Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00.

## Cyhoeddiadau

### Llansannan

- Sul yma – 22<sup>ain</sup> Bydd Gwion yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Mercher – 25<sup>ain</sup> Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion Jones, Y Gorlan (870656) **erbyn dydd Sul, Tachwedd 22ain**, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 29<sup>ain</sup> Bydd y Parch. Meurig Dodd yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

### Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma – 22<sup>ain</sup> Bydd Sarah yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.
- Sul nesaf – 29<sup>ain</sup> Bydd y Parch. Meurig Dodd yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.

### Henllan a Groes

- Sul yma – 22<sup>ain</sup> Bydd Mr John Hughes yn arwain oedfa yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00.
- Sul nesaf – 29<sup>ain</sup> Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 10.00.

### Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 22<sup>ain</sup> Bydd Aneurin yn arwain oedfa deuluol a chymun i'r daith yn Llanefydd am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 11.15.
- Sul nesaf – 29<sup>ain</sup> Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.

### Manylion Cyswllt

- Aneurin – 📧 [aneurin@eglwysibroaled.com](mailto:aneurin@eglwysibroaled.com) ☎ 01745 870618 📞 07775 701102  
Gwion – 📧 [gwion@eglwysibroaled.com](mailto:gwion@eglwysibroaled.com) ☎ 01745 870522 📞 07849 591163  
Sarah – 📧 [sarah@eglwysibroaled.com](mailto:sarah@eglwysibroaled.com) ☎ 01745 870522 📞 07900 308461  
Mair – 📧 [mair@eglwysibroaled.com](mailto:mair@eglwysibroaled.com) ☎ 01745 870632 📞 07900 627536
- Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.*

### Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.